# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU | AUDIT AND GOVERNANCE COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH, 28 MAWRTH 2017 am 2 y p'nawn | TUESDAY, 28 MARCH, 2017 at 2:00 p.m. |
| SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

Jim Evans, Dafydd Rhys Thomas a Richard Owain Jones

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Alun W Mummery a Nicola Roberts

**Grwp Chwyldroad/Revolutionist Group**

Peter S.Rogers

**Heb Ymaelodi/Unaffiliated**

R Ll Jones (Cadeirydd/Chair)

**ALEODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Mr Richard Barker a Mrs Sharon Warnes

# R H A G L E N

**1** **YMDDIHEURIADAU**

**2** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3** **COFNODION CYFARFOD 9 CHWEFROR, 2017** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 9ed Chwefror, 2017.

**4** **CYNLLUN STRATEGOL ARCHWILIO MEWNOL 2017/18 - 2019/20 A CHYNLLUN BLYNYDDOL 2017/18** (Tudalennau 7 - 44)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio Mewnol.

**5** **ARCHWILIO ALLANOL: CYNLLUNIO ARBEDION - CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 45 - 64)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151.

**6** **ARCHWILIO ALLANOL : CYNLLUN ARCHWILIO DRAFFT 2017 - CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 65 - 86)

Cyflwyno Cynllun Archwilio drafft 2017.

**7** **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 87 - 92)

Cyflwyno Blaen Raglen Waith y Pwyllgor wedi'i diweddaru.

**8** **PENODI AELODAU LLEYG** (Tudalennau 93 - 98)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151.

# Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror, 2017

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd John Griffith (Is-Gadeirydd) (o eitem 4 ymlaen)<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, Alun Mummery, Peter Rogers, Dafydd Thomas<br><br>Aelodau Lleyg: Mr Richard Barker a Mrs Sharon Warnes |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151<br>Rheolwr Archwilio Mewnol (SP)<br>Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd (DR) (ar gyfer eitem 3)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Richard Owain Jones, Nicola Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd), Mr Gwilym Bury (yn arwain ar Archwilio Perfformiad - Swyddfa Archwilio Cymru) |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 6 RHAGFYR, 2016**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr, 2016 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Materion yn codi –

Dywedodd y Rheolwr Archwilio Mewnol wrth y Pwyllgor fod Mr Ivan Butler, sef Pennaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ddinbych, wedi dechrau gweithio ar gynnal yr asesiad cymheiriaid o Wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ynys Môn, a hynny'n unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Dywed y Safonau bod raid cynnal asesiad allanol o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol o leiaf unwaith bob 5 mlynedd gan aseswr neu dîm asesu annibynnol a chymwys o'r tu allan i'r sefydliad. Bwriedir adrodd ar ganlyniad yr asesiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ar ddiwedd mis Mawrth.

**3 ARCHWILIAD GAN YR ASIANTAETH SAFONAU BWYD**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y pwyllgor, adroddiad y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd ar ail ymweliad yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ag Ynys Môn ar 15 a 16 Medi, 2016 i ddilyn i fyny'r cynnydd a wnaed ers archwiliad gwreiddiol yr Asiantaeth o Wasanaeth Bwyd a Phorthiant yr Awdurdod ym mis Gorffennaf, 2014.

Dywedodd y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd ei fod wedi adrodd yn flaenorol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym Medi 2015 ar y Cynllun Gweithredu a'r cynnydd a wnaed ar ôl archwiliad gwreiddiol yr



DRAFT

Asiantaeth Safonau Bwyd a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf, 2014. Adroddwyd ar nifer o ganfyddiadau yn dilyn yr archwiliad a arweiniodd at 40 o argymhellion gan dîm Archwilio'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Crynhoir prif ganfyddiadau'r archwiliad gwreiddiol yn adran 2.1 o'r adroddiad. Ymatebwyd i'r argymhellion drwy lunio Cynllun Gweithredu yn ymhelaethu ar sut y byddai pob argymhelliad yn cael sylw. Ailymwelodd tîm Archwilio'r Asiantaeth Safonau Bwyd â'r Awdurdod ym mis Medi, 2016 er mwyn asesu'n ffurfiol y cynnydd a wnaed yn erbyn yr adroddiad llawn; roedd hyn yn golygu ymweld â'r safle a llunio adroddiad wedyn ar ffurf Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddaru. Mae'r adroddiad dilyn-i-fyny yn dangos bod cynnydd da wedi ei wneud ar y rhan fwyaf o'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt, gyda 22 wedi eu cwblhau a chynnydd da wedi ei wneud gyda 10 arall. Dim ond ar gyfer 4 cam gweithredu y barnwyd bod y cynnydd a wnaed yn gyfyngedig ac nid oedd dim un o'r camau gweithredu heb gael sylw o gwbl; ni roddwyd prawf ar 4 eitem oherwydd na fu unrhyw weithgaredd yn y meysydd gwaith penodol hynny. Rhestrir y 4 mater a oedd angen y sylw mwyaf ym mharagraff 3.3 yr adroddiad, ac 'roeddent yn cynnwys datblygu mwy ar y Cynllun Darparu Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth yn rhagweld y bydd yn gallu cwrdd â'r holl gamau gweithredu erbyn mis Ebrill, 2017. Mae'r diffyg adnoddau staffio i gwrdd â'r targed o ran nifer yr Arolygiadau Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd yn parhau i fod yn bryder yn erbyn cyllideb sy'n gostwng ar gyfer Gwarchod y Cyhoedd. Cyfeirir at y diffyg adnoddau staffio a'r goblygiadau o ran mynd i'r afael â'r arolygiadau a oedd wedi cronni ym mharagraffau 2.3 i 2.6 yr adroddiad. Mae gwaith gorfodaeth o ran Rheolaethau Porthiant yn cael ei wneud ar y cyd ar draws Gogledd Cymru ac mae'n cwrdd â'r argymhellion a nodwyd gan adroddiad yr ASB. Nid yw'r ASB yn bwriadu dychwelyd i'r Awdurdod i wirio'r camau sy'n weddill gan y byddant yn cael sylw fel rhan o unrhyw ymweliadau posib â'r Awdurdod yn y dyfodol.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaeth y pwyntiau canlynol -

- Cydnabu'r Pwyllgor y cynnydd a oedd wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion a wnaed gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a llongyfarchodd y Gwasanaeth am hynny.
- Nododd y Pwyllgor y cyfnod o amser rhwng yr archwiliad gwreiddiol gan yr ASB a'r ail ymweliad i wirio a oedd y camau gweithredu'n cael sylw ac i edrych ar y cynnydd a wnaed. Mewn achosion lle'r oedd materion penodol wedi eu nodi, nododd y Pwyllgor fod angen i'r Asiantaeth ddilyn-i-fyny yn fwy prydlon i sicrhau bod camau gweithredu'n cael sylw priodol ac i sicrhau cydymffurfiaeth.
- Nododd y Pwyllgor fod digonolrwydd adnoddau staff yn parhau i fod yn fater a allai amharu ar y gwasanaeth wrth iddo geisio cyflawni ei gyfrifoldebau o ran arolygu safonau bwyd a hylendid bwyd yn effeithiol (mae'r arolygiadau hylendid porthiant bellach yn cael eu gwneud drwy drefniant cydweithio). Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd bod y Gwasanaeth yn hyderus bod ganddo'r adnoddau angenrheidiol i allu rheoli'r llwyth gwaith arolygu ac i atal y llwyth gwaith a oedd wedi cronni rhag cynyddu ymhellach. Dywedodd y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd bod y gwasanaeth, ers dwy neu dair blynedd bellach, wedi bod yn cael anhawster recriwtio staff yn lle staff sy'n absennol a bod hynny, ynghyd â chynnydd yn y galw am arolygiadau bwyd o ganlyniad i'r system sgorio hylendid bwyd, wedi bod yn heriol. Mae hyn wedi arwain at ôl-groniad o arolygiadau y mae angen ei glirio. Neilltuwyd arian o fewn cyllideb y gwasanaeth i wneud y gwaith sydd wedi cronni, ond bu'n anodd recriwtio staff dros dro. Fodd bynnag, mae'r ôl-groniad o arolygiadau hefyd yn cael sylw yn fewnol. Trawsnewidiwyd ac ailstrwythurwyd y timau o fewn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ym mis Ebrill, 2016 i fynd i'r â'r afael heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth ac mae hyn wedi arwain at drefniadau staff mwy hyblyg a'r gallu i gyfeirio staff i weithio yn y meysydd lle mae'r galw ar ei fwyaf. Mae'r newidiadau a wnaed yn dal i wreiddio o ran datblygu'r sgiliau a'r cymwyseddau i ymgymryd â mwy nag un swyddogaeth.
- Mewn cyd-destun o gynnydd yn y sector bwytai a bwyta allan, nododd y Pwyllgor ei bod yn hanfodol monitro a gorfodi safonau bwyd yn effeithiol gan ei fod yn faes risg ac oherwydd y gall goblygiadau digwyddiad bwyd fod yn ddifrifol. Dywedodd y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd fod arolygu busnesau newydd yn flaenoriaeth ar gyfer y gwasanaeth (roedd 113 eleni yr oedd angen eu harolygu); nid yw'r busnesau hyn yn cael sgôr risg hyd nes iddynt gael eu harolygu. Er bod twf yn y busnes bwyd yn rhywbeth cadarnhaol ac i'w groesawu, mae'n creu galw am y gwasanaeth. Mae gan Ynys Môn safonau bwyd da / proffil hylendid da o ran nifer y safleoedd sydd â sgôr hylendid bwyd o 4 neu 5. Rhoddir sgôr risg i adeiladau ac fe arolygir y rheini yr

DRAFT

ystyrir eu bod yn rhai risg uwch bob 6, 12 neu 18 mis tra bod y rhai risg is yn cael eu harolygu bob 2 flynedd.

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar faint o arian mae'r Gwasanaeth yn gallu ei gynhyrchu trwy godi tâl am arolygiadau ac a oes mwy y gellid ei wneud i gynyddu refeniw. Dywedodd y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd na chodir tâl am yr arolygiad cyntaf a wneir gan y gwasanaeth ond ei fod yn codi tâl am yr ail arolygiad os oes materion i'w dilyn-i-fyny, a hynny oherwydd eu bod yn digwydd y tu allan i'r rhaglen. Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cyhoeddi papur gweithio sy'n cynnig y gellir codi tâl am lawer iawn mwy o'r gwaith a wneir gan awdurdodau lleol yn y maes hwn er mwyn adennill costau.
- Awgrymodd y Pwyllgor fod angen i'r Cynllun Darparu Gwasanaeth ganolbwyntio ar feysydd risg fel bod adnoddau'n cael eu targedu ar gyfer y meysydd y mae'r angen mwyaf amdanynt h.y. meysydd blaenoriaeth a nodwyd fel rhai risg uwch. Nododd y Pwyllgor fod yr egwyddor hon yr un mor berthnasol i wasanaethau eraill.
- Nododd y Pwyllgor y sylwadau a wnaed drwy e-bost gan yr Is-Gadeirydd nad oedd yn bresennol ar gyfer yr eitem hon a chytunwyd y byddent yn cael eu cyfeirio ymlaen at y Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad fel un a oedd yn darparu sicrwydd bod cynnydd da wedi ei wneud o ran gweithredu'r argymhellion a wnaed yn sgil archwiliad yr Asiantaeth Safonau Bwyd a bod amserlen ar gyfer cwblhau'r camau sy'n weddill.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 4. ADRODDIAD GWAITH GAN Y GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Rheolwr Archwilio Mewnol ar berfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol hyd yma mewn perthynas â Chynllun Archwilio 2016/17.

Adroddodd y Rheolwr Archwilio Mewnol fel a ganlyn -

- Mae'r adroddiad yn dadansoddi perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am y cyfnod 1 Ebrill, 2016 hyd at 31 Rhagfyr, 2016 ac fe'i cefnogir gan Atodiadau A i G sy'n rhoi manylion am y cynnydd a wnaed yn erbyn targedau perfformiad ar gyfer 2016/17 a'r gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth yn ystod y cyfnod.
- Mae nifer y dyddiau gwaith a neilltuwyd ar gyfer gwaith sy'n mynd rhagddo yn ystod 2016/17 hyd at ddiwedd mis Rhagfyr, 2016 yn cyfateb i 111.55 diwrnod a daw'r dyddiau hyn o'r ddarpariaeth oedd yn weddill ar gyfer gwaith o'r fath yn y flwyddyn flaenorol.
- Mae'r rhestr o dargedau perfformiad ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr, 2016 yn Atodiad A yn dangos bod 56.06% o'r archwiliadau a gynlluniwyd wedi'u cwblhau hyd at 31 Rhagfyr, 2016 yn erbyn targed blynyddol o 80%.
- Cynhaliwyd 2 o archwiliadau ychwanegol nad oeddent wedi eu cynllunio yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill i 31 Rhagfyr, 2016, sef cyfanswm o 10.36 o ddiwrnodau gwaith fel y nodir yn Atodiad B.
- Rhoddir crynodeb o'r holl waith archwilio a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn hyd yma gan gynnwys gwaith a oedd yn mynd rhagddo o 2015/16 yn Atodiad D. Nid oedd dau o'r archwiliadau a gynlluniwyd ac a gwblhawyd ers 1 Medi, 2016 yn darparu lefelau cadarnhaol o sicrwydd. Aseswyd mai dim ond sicrwydd cyfyngedig y gellid ei roi mewn perthynas â Gorchmynion Llys Gofal Plant dan y Gyfraith Gyhoeddus a'r Trefniant Comisiynu Tai Gofal Ychwanegol. Crynhoir manylion yr archwiliadau yn Atodiad D i'r adroddiad.
- Ar 31 Rhagfyr, 2016, 'roedd y gyfradd ganrannol ar gyfer gweithredu argymhellion y gwasanaeth archwilio mewnol yn 82%.'Roedd graff yn dangos dadansoddiad o weithrediad yr argymhellion fesul gwasanaeth i'w weld yn Nhabl 2. Mae'r argymhellion sydd heb eu gweithredu ar 31 Rhagfyr, 2016 wedi eu rhestru yn Atodiad E.
- Mae rhestr o'r 10 o'r archwiliadau dilyn-i-fyny a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill i 31 Rhagfyr, 2016 i'w gweld yn Atodiad F. Mae'n dangos nifer yr argymhellion a dderbyniwyd ac a weithredwyd gan reolwyr ym mhob maes, ynghyd â barn archwilio ddiwygiedig am ddigonolrwydd yr amgylchedd rheolaethau mewnol.

DRAFT

- Mae crynodeb o'r ymchwiliadau arbennig a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod i'w weld yn Atodiad G; mae'r rhain yn cyfateb i 141.08 ddiwrnodiau.
- Collwyd 5 diwrnod gwaith oherwydd salwch hyd at y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr, 2016 yn erbyn targed blynyddol o 45 diwrnod.
- Mae dadansoddiad o berfformiad y Gwasanaeth yn ystod y cyfnod dan sylw yn dangos bod lefelau perfformiad ar darged. Fodd bynnag, bydd gallu'r gwasanaeth i gyflawni'r Cynllun Gweithredu'n dibynnu ar lefel y galw am adnoddau archwilio o ran atgyfeiriadau, gwaith nad yw wedi ei gynllunio ymlaen llaw hyd at ddiwedd y flwyddyn a lefelau absenoldeb salwch.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r wybodaeth a gyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol -

- Nododd y Pwyllgor, mewn perthynas â phrosesau rheolaeth a sicrwydd y Cyngor a'i reolaethau ar gyfer Diogelu Corfforaethol (Atodiad D) fod y maes hwn wedi ei asesu'n un sy'n darparu Sicrwydd Cyfyngedig yn unig a'i fod wedi bod dan ystyriaeth ers peth amser. Yn wyneb y risgiau sy'n gynhenid i'r maes diogelu corfforaethol oherwydd natur fregus yr unigolion yr asesir bod angen eu diogelu, ceisiodd y Pwyllgor eglurhad ar y sefyllfa mewn perthynas â gweithredu ar y canfyddiadau allweddol yn yr archwiliad a wnaed o'r maes hwn. Dywedodd y Rheolwr Archwilio Mewnol wrth y Pwyllgor y trefnwyd i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol adrodd ar y camau a gymerwyd i ymateb i'r archwiliad o'r maes Diogelu Corfforaethol i'r Pwyllgor hwn ym mis Mehefin, 2017. Mae'r Gwasanaeth Archwilio'n dilyn-i-fyny'r holl archwiliadau Sicrwydd Cyfyngedig ac adroddir i'r Pwyllgor ar y canlyniad, ynghyd â'r farn archwilio ddiwygiedig.
- Nododd y Pwyllgor fod y Cyngor, yn ystod 2013/14, wedi dwyn ynghyd gyfrifoldeb am ddiogelu plant ac oedolion o dan un Pennaeth Gwasanaeth (Plant). Holodd y Pwyllgor a adolygwyd effeithiolrwydd y newid sefydliadol hwn ac a yw'r ailstrwythuro wedi helpu i gyfrannu at wella rheolaethau a phrosesau'r Cyngor ar gyfer rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â Diogelu Corfforaethol. Dywedodd y Prif Weithredwr bod diogelu yn gyfrifoldeb corfforaethol a'i fod yn elfen yr oedd yn rhaid i bob Pennaeth Gwasanaeth gwrdd â hi y llynedd a hefyd eleni, a'u bod yn cael eu dal yn atebol am hynny. Mae'r Gwasanaethau Plant yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a chymerir y pwynt a wnaed i ystyriaeth fel rhan o'r adolygiad.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y prosesau ar gyfer monitro gwaith a wnaed o dan gontract i'r Cyngor ac ar gyfer nodi a dilyn i fyny achosion lle nad yw'r gwaith a wnaed yn cyrraedd y safon, neu heb ei gwblhau, neu ddim yn cwrdd â manylebau contract sy'n golygu y gallai bod perygl o golled ariannol i'r Cyngor, yn enwedig lle mae taliadau eisoes wedi'u gwneud. Rhoddwyd enghraifft o sefyllfa o'r fath. Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod y Gwasanaethau Archwilio Mewnol wedi cychwyn archwiliad o'r Gwaith Cynnal a Chadw Tai yn ddiweddar ac y bydd yn cynnwys y pwynt a godwyd fel rhan o'r gwaith o archwilio'r rheolaethau, y prosesau a'r arferion yn y maes hwn.
- Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod argymhellion yn cael eu gweithredu ac y nodir ac amlygir rhesymau dros beidio â gweithredu neu faterion a allai rwystro gweithredu e.e. diffyg adnoddau staff - boed hynny drwy'r Gofrestr Risg Gorfforaethol neu yn rhywle arall. Pwysleisiodd y Pwyllgor bod nodi rigiau posib yn gynnar ac adrodd arnynt mewn modd amserol yn hanfodol er mwyn helpu i atal y risgiau hynny rhag digwydd. Dywedodd y Prif Weithredwr fod gweithdrefn ar gyfer adnabod ac uwchgyfeirio risgiau lle bo angen. Adolygir Cofrestrau Risg Gwasanaethau'n rheolaidd a chyfeirir unrhyw faterion i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth; os tybir eu bod yn peri risg gorfforaethol cânt eu rhoi ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad fel un sy'n darparu sicrwydd ynghylch y prosesau rheolaethau mewnol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol a weithredir i reoli'r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

DRAFT

**5. ADRODDIADAU DILYN-I-FYNY GAN Y GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Rheolwr Archwilio Mewnol a oedd yn darparu diweddariad pellach ar Archwiliadau Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb TGCh mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd a chwblhau'r camau a argymhellwyd fel rhan o'r archwiliadau hynny. Crynhowyd manylion yr ail Archwiliadau dilyn-i-fyny ynghylch materion Parhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb TGCh yn Atodiadau A a B i'r adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Archwilio Mewnol fel a ganlyn -

- **Ail Archwiliad dilyn-i-fyny ar gyfer Trefniadau Parhad Busnes** - fel y manylir ym mharagraff 2 yn Atodiad A, nododd yr ail adolygiad dilyn-i-fyny fod y ddau argymhelliad lefel uchel nad oeddent wedi eu gweithredu ar adeg yr adolygiad diwethaf wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn. Asesir bod yr argymhelliad lefel uchel a oedd ar ôl ynghylch yr angen i gynnwys trefniadau rheoli ar gyfer adfer adeiladau yn y Cynllun Parhad Busnes Corfforaethol wedi ei weithredu'n rhannol. Gan nad oedd yr argymhelliad wedi ei weithredu'n llawn eto, fe gafodd ei ailadrodd. Asesir bod yr argymhelliad lefel ganolig sy'n ymwneud ag anghenion hyfforddi i gefnogi gweithrediad y Cynllun Parhad Busnes wedi ei weithredu'n llawn. Mewn perthynas â'r argymhelliad lefel ganolig y dylai gwasanaethau sicrhau bod eu trefniadau parhad busnes a'u cynlluniau argyfwng yn gyfredol ac yn weithredol a'u bod wedi eu cynnwys o fewn eu Cynlluniau Darparu Gwasanaeth, nid yw pob gwasanaeth wedi cynnwys Parhad Busnes o fewn eu cynlluniau gwasanaeth ac felly ailadroddir y rhan hon o'r argymhelliad. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ail adolygiad dilyn-i-fyny asesir bod y Cyngor wedi dangos cynnydd da o ran gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt i fynd i'r afael â'r argymhellion gan y gwasanaeth archwilio a bod lefel y sicrwydd a ddarperir bellach yn y maes hwn yn Sylweddol.
- **Adolygiad dilyn-i-fyny ar gyfer Adfer ar ôl Trychineb -** fel y manylir ym mharagraff 2 yn Atodiad B, roedd yr ail adolygiad dilyn-i-fyny yn asesu bod un argymhelliad lefel uchel wedi ei weithredu'n llawn, sef yr angen i gynhyrchu, mabwysiadu a gweithredu Cynllun Adfer ar ôl Trychineb TGCh. Aseswyd bod ail argymhelliad lefel uchel wedi ei weithredu i raddau helaeth, ond, o ran y trydydd argymhelliad lefel uchel, erys angen i'r gwasanaethau roi prawf ar y system a'r trefniadau ar gyfer data wrth gefn yn y Cynllun Adfer ar ôl Trychineb TGCh. Mewn perthynas â'r argymhelliad lefel uchel a oedd ar ôl, sef cofnodi'n ffurfiol y cyfrifoldeb am gynnal a monitro'r systemau rheolaeth amgylcheddol ac atal tân o fewn y canolfannau data, gwnaed argymhelliad newydd i'r perwyl bod y cyfrifoldeb am reoli a chynnal yr UPS a'r system awyru yn y Ganolfan Data TGCh yn cael ei drosglwyddo i'r Gwasanaethau Eiddo i'w gynnwys yn y Cynllun Rheoli Adeiladau. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ail adolygiad dilyn-i-fyny, asesir bod y Cyngor wedi dangos cynnydd rhesymol wrth weithredu'r camau y cytunwyd arnynt i fynd i'r afael ag argymhellion y gwasanaeth archwilio a bod lefel y sicrwydd a ddarperir bellach yn y maes hwn yn Rhesymol.

Nododd y Pwyllgor fod y ddau faes y cyfeiriwyd atynt wedi bod yn destun sylw gan y Pwyllgor am beth amser; 'roedd bellach yn croesawu'r cynnydd a wnaed ar weithredu argymhellion y gwasanaeth archwilio er mwyn gwella'r amgylchedd rheoli yn y ddau faes fel yr amlygir yn yr adroddiad diweddaru, gan leihau'r risgiau a nodwyd yn y meysydd hynny.

**Penderfynwyd bod y pwyllgor yn fodlon â lefel y sicrwydd a ddarperir fel y dangosir yn yr adroddiad am y camau a gymerwyd mewn perthynas â Pharhad Busnes ac Adfer ar ôl Trychineb TGCh.**

**CAM GWEITHREDU YN CODI: Y Pwyllgor i dderbyn diweddariad terfynol ar Adfer ar ôl Trychineb TGCh ym Mehefin 2017 iddo fedru bodloni ei hun bod y camau sy'n weddill wedi eu cwblhau.**

**6 BLAENRAGLEN WAITH**

Ailgyflwynwyd Blaenraglen Waith y Pwyllgor fel y cyflwynwyd hi i'r Pwyllgor ar 6 Rhagfyr 2016 cyfarfod i'w hadolygu a'i diweddaru.

Nododd y Pwyllgor yr eitemau ychwanegol a ganlyn i'w cynnwys yn y Flaenraglen Waith un ai fel materion yn codi o fusnes y Pwyllgor yn y cyfarfod hwn, neu fel materion sydd angen eu hystyried -

- Cynllun Archwilio Allanol 2017 i'w gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mawrth, 2017
- Yr adroddiad dilyn-i-fyny gan y Gwasanaeth Archwilio mewn perthynas â Diogelu Corfforaethol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mehefin, 2017
- Y diweddariad terfynol ar Adfer ar ôl Trychineb TGCh i'w gyflwyno i'r Pwyllgor hefyd ym mis Mehefin, 2017.

**Penderfynwyd derbyn y Flaenraglen Waith gyda'r eitemau ychwanegol fel y nodir nhw uchod.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones**
**Cadeirydd**

1

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R** | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHIANT** |
| **DYDDIAD** | **28 MAWRTH 2017** |
| **PWNC** | **CYNLLUN STRATEGOL ARCHWILIO MEWNOL 2017/18 – 2019/20 A CHYNLLUN BLYNYDDOL 2017/18** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL** | **PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL – MIKE HALSTEAD** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **RHEOLWR ARCHWILIO – SIONED PARRY** |
| **Natur a rheswm dros adrodd –** Mae'r ddogfen sydd ynghlwm yn amlinellu Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) ar gyfer y flwyddyn 2017/18. Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Blynyddol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant i'w hystyried a'u cymeradwyo yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a ddaeth i rym ar 1/4/13 ac a gynhyrchwyd gan CIPFA a chyrff eraill sy'n gosod safonau. | |

## 1. GWYBODAETH GEFNDIR

### 1.1 Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2017/18

**1.1.1** Mae angen i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ddatblygu a chynnal strategaeth **(Atodiad A)** ar gyfer darparu'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn unol â'i Siarter Archwilio Mewnol a'i Gylch Gorchwyl a gafodd eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar 27 Ebrill 2015 a 9 Chwefror, 2015, yn eu trefn. Mae'r Strategaeth Archwilio Mewnol yn ddatganiad lefel uchel o sut bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu a'i ddatblygu ac fe'i cefnogir gan Gynllun Blynyddol manwl yn **Atodiad B.**

**1.1.2** Diben y strategaeth yw sefydlu ymagwedd sy'n golygu y gellir rheoli gwasanaeth Archwilio Mewnol CSYM mewn ffordd a fydd yn hwyluso:

- Sut mae'r Gwasanaeth yn cael ei ddarparu i roi sicrwydd parhaus i reolwyr ar gadernid, effeithiolrwydd a gweithrediad system rheolaeth fewnol CSYM.
- Cyflawni'r Cynllun Blynyddol.
- Cynnig barn blynyddol ar drefniadau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethiant y Cyngor i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2016/17.
- Hunanasesiad blynyddol i werthuso cydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac adnabod cyfleoedd ar gyfer gwelliant.
- Proses sy'n sicrhau bod ymatebion rheolwyr i argymhelion y gwasanaeth archwilio'n cael eu rhoi ar waith.

- System ddigonol ac effeithiol ar gyfer archwilio'n fewnol y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheolaeth fewnol yn unol ag arferion archwilio mewnol priodol.
- Nodi adnoddau archwilio sydd eu hangen i ddarparu gwasanaeth archwilio sy'n cwrdd â safonau proffesiynol gofynnol;
- Dyrannu adnoddau rhwng gwasanaethau sicrwydd, gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thwyll a gwasanaethau ymgynghori a ddarperir gan y gwasanaeth.

**1.1.4** Cefnogir y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Blynyddol **yn Atodiad A** gan Atodiadau B i E sy'n ymhelaethu ar y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2017/18, Cynllun Strategol 3 blynedd ar gyfer y cyfnod 2017-2020, a dadansoddiad o adnoddau Archwilio Mewnol a thargedau perfformiad mewn perthynas â 2017/18.

## 1.2 Y Broses o Asesu Anghenion Archwilio

**1.2.1** Mabwysiadodd y Cyngor Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn 2013 ac mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn glynu wrthynt. Mae Safon 2010 yn ymwneud â chynllunio gwaith archwilio ac mae'n nodi: '*rhaid i'r prif swyddog archwilio sefydlu cynlluniau sy'n seiliedig ar risg i bennu blaenoriaethau'r gweithgareddau archwilio mewnol, yn gyson â nodau'r sefydliad'.*

**1.2.2** Er mwyn adnabod y meysydd y mae angen i'r gwasanaeth archwilio mewnol roi sylw iddynt, mae angen deall y risgiau y mae'r sefydliad yn eu hwynebu. Cynhaliwyd asesiad o'r anghenion archwilio ar gyfer 2017/18 gan ddefnyddio'r prosesau canlynol:

- Cadarnhau amcanion craidd y sefydliad a'r risgiau allweddol penodol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r amcanion hynny drwy adolygu'r Cynllun Busnes Corfforaethol ar gyfer 2013/17 a thrwy gysylltu â rheolwyr y Cyngor

- Gwybodaeth a gasglwyd am y Sefydliad yn sgil gwaith archwilio mewnol a wnaed eisoes i adnabod meysydd a fyddai'n elwa o gael sylw gan y gwasanaeth archwilio mewnol. Roedd hyn yn golygu ymgorffori barn am drefniadau rheoli mewnol, llywodraethiant a rheoli risg y Cyngor yn Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Archwilio ar gyfer 16/17.

- Yn ogystal, nododd yr asesiad o Anghenion Archwilio rai meysydd nad ydynt yn ymddangos fel risg blaenoriaeth uchel ond lle gall sylw gan y gwasanaeth archwilio mewnol ddarparu mewnbwn o ran sicrwydd, er enghraifft:

    - Gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol

- Gwaith y mae angen ei wneud fel y gall archwilwyr allanol ddibynnu ar waith Archwilio Mewnol ar systemau ariannol craidd yn unol â'r cysyniad o archwiliadau a reolir
- Meysydd sy'n achosi pryder y tynnwyd sylw atynt gan reolwyr neu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant
- Materion sy'n dod i'r amlwg
- Yr angen am sicrwydd parhaus mewn perthynas ag agweddau allweddol ar reoli risg, llywodraethu a rheolaethau mewnol

**1.2.3** Roedd dogfennau eraill yr edrychwyd arnynt wrth ddatblygu'r cynllun yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i: Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2015/16; Archwiliad Deloittes o Ddatganiadau Cyfrifyddu; Dogfen Gyflawni Flynyddol (Cynllun Gwella) 2016/17; a chysylltu â'r Archwilwyr Allanol (Deloittes) a sgriwtini o'u cynlluniau gwaith ar gyfer 2017/18.

**1.2.4** Mae dull o weithio'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn rhoi sylw i risgiau ac mae'n defnyddio Cofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor i yrru Cynlluniau Strategol a Gweithredol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac i ddefnyddio ein hadnoddau cyfyngedig i roi sicrwydd ynghylch y risgiau mwyaf i'r Cyngor pan fo hynny'n bosib ac yn briodol. Yna adroddir ar sicrwydd ynghylch risgiau sy'n gyfarwydd i reolwyr ac Aelodau'r Cyngor trwy eu gwybodaeth am risgiau corfforaethol.

**1.2.5** Gwnaed defnydd ychwanegol o gyfarfodydd gydag uwch reolwyr ac adolygwyd dogfennau corfforaethol i asesu'r risgiau ac anghenion archwilio. Mae'r dadansoddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth a gafwyd yn sgil archwiliadau a gynhaliwyd yn flaenorol, ynghyd â phrofiad o weithrediadau, amcanion a risgiau'r Cyngor.

**1.2.6** Mae adolygiad o'r Fframwaith Rheoli Risg ac o effeithiolrwydd y camau gweithredu i liniaru'r risgiau mwyaf i'r Cyngor wedi cael ei gynnwys yng Nghynllun Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2017/18.

## 1.3 Y Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol Blynyddol

**1.3.1** Cynhyrchir y Cynllun Gweithredol Blynyddol i ddarparu rhaglen waith ar gyfer y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am y flwyddyn. Adolygir yr asesiad o anghenion archwilio a gofynnir am fewnbwn gan y Prif Weithredwr, Prif Weithredwyr Cynorthwyol, Penaethiaid Swyddogaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth i nodi unrhyw risgiau nad ydynt yn cael sylw ar hyn o bryd. Defnyddir yr asesiad diwygiedig o anghenion archwilio i gyfeirio adnoddau Archwilio Mewnol at yr agweddau hynny a aseswyd fel rhai sy'n peri'r risg fwyaf o ran cyflawni'r amcanion sydd gan y Sefydliad.

**1.3.2** Fel rhan o'r broses o ddatblygu Cynllun Gweithredol 2017/18, mae’r Rheolwr Archwilio wedi ymgynghori gyda'r Prif Weithredwyr Cynorthwyol, y Swyddog Adran 151 ac wedi cysylltu gyda'r Penaethiaid Swyddogaeth a Phenaethiaid Gwasanaeth i drafod eu hanghenion. Ymghynghorwyd hefyd gyda’r Archwiliwr Allanol (Deloittes) ar y Cynllun Gweithredol arfaethedig ar gyfer 2017/18.

**1.3.3** Mae'r Cynllun Gweithredu arfaethedig ar gyfer Archwilio Mewnol a welir yn **Atodiad B** yn adlewyrchu canlyniadau’r adolygiad a gynhaliwyd eleni o’r Dadansoddiad o’r Asesiad Anghenion Archwilio ar gyfer 2017/18.

## 1.4 Adnoddau

**1.4.1** Darperir y gwasanaeth Archwilio Mewnol gan dîm mewnol o 6 swyddog fel y nodwyd yn **Atodiad D.**

**1.4.2** Mae sgiliau ac arbenigedd digonol o fewn y gwasanaeth i ddarparu'r rhan fwyaf o'r ystod lawn o archwiliadau sydd yn y Cynllun Blynyddol, i reoli'r gwasanaeth yn effeithlon ac yn effeithiol ac i roi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar ddigonolrwydd y rheolaeth fewnol, y trefniadau rheoli risg a’r prosesau llywodraethu corfforaethol. Efallai y bydd angen allanoli rhai elfennau o arbenigedd mewn perthynas ag archwiliadau TG.

## 1.5 Rheoli Perfformiad

**1.5.1** Mae'r gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar ffyrdd i wneud y gorau o’r adnoddau archwilio a gwella perfformiad, tra'n cynnal gwasanaeth o safon a sicrhau cydymffurfiaeth â safonau proffesiynol. Cyflawnir hyn drwy brosesau sicrhau ansawdd cadarn a thrwy osod amcanion yn y Cynllun Gwasanaeth Blynyddol. Mae cynnydd o ran cyflawni amcanion yn cael ei fonitro drwy adolygiadau perfformiad gwasanaeth chwarterol ac adroddir ar berfformiad y gwasanaeth i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn chwarterol. Mae targedau perfformiad ar gyfer 2017/18 ynghlwm yn **Atodiad E** i'w hystyried a'u cymeradwyo. Mae'r dangosydd ynghylch gweithredu argymhellion lefel uchel a chanolig yn rhoi tystiolaeth o’r canlyniadau ac o faint o ddylanwad sydd gan y gwasanaeth o ran gyrru gwelliant a hyrwyddo rheoli risg.

# 2. ARGYMHELLION

**2.1** Bod Aelodau yn ystyried ac yn cymeradwyo'r Strategaeth a Chynllun Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2017/18.

**2.2** Bod Aelodau'n ystyried a chymeradwyo targedau perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2017/18.

**ATODIAD A**

# Strategaeth a Chynllun Blynyddol Archwilio Mewnol

# 2017-18

**Cyflwynwyd i:**

**UDA: 27 Mawrth 2017**

**Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant: 28 Mawrth 2016**

**Mike Halstead**

**Pennaeth Archwilio Mewnol**

## Cynnwys **Tudalen**


**Cyflwyniad a Throsolwg ………………………………………….. - 1 -**

**Cyflawniadau Allweddol Craidd ………………………………… - 2 -**

**Rôl a Phwrpas Archwilio Mewnol ………………………………. - 2 -**

**Protocol ar gyfer Adolygiadau Archwilio** ……………………… **- 3 -**

**Meysydd blaenoriaeth ar gyfer 2017/18 .................................... - 3 -**

**Rheoli perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ............... - 5 -**

**Darparu Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2017/18 - 5 -**

**Datblygu'r Cynllun Archwilio Blynyddol Mewnol** ……………… **- 6 -**

**Crynodeb o'r Cynllun Archwilio Mewnol 2017/18 ……………… - 7 -**

**Adrodd** ………………………………………………………………… **- 8 -**


**Atodiadau**


**Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol 2017-18 Atodiad B**

**Cynllun Strategol 2017- 20 Atodiad C**

**Adnoddau Archwilio Mewnol Atodiad D**

**Targedau Perfformiad y Gwasanaeth 2017 -18 Atodiad E**

## Cyflwyniad a Throsolwg

### Datganiad Strategaeth

1. Strategaeth gyffredinol Archwilio Mewnol yw darparu cynllun archwilio yn seiliedig ar risg mewn modd proffesiynol, annibynnol ac yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2013, er mwyn rhoi i'r sefydliad sicrwydd gwrthrychol ac ymgymryd â gweithgareddau ymgynghori sydd wedi eu dylunio i ychwanegu gwerth ac i wella gweithrediadau'r Awdurdod. Bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion drwy gyflwyno dull systematig, disgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethiant.

### Diben y Strategaeth a'r Cynllun Blynyddol

2. Diben y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol yw:

- Darparu sicrwydd cyffredinol annibynnol a gwrthrychol i Aelodau ac uwch reolwyr ynghylch effeithiolrwydd amgylchedd rheoli Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM), gan gynnwys llywodraethiant a rheoli risg a gwneud argymhellion priodol ar gyfer gwella;
- Nodi'r risgiau allweddol sy'n wynebu CSYM o ran cyflawni ei amcanion a phennu lefel gyfatebol o adnoddau archwilio;
- Ychwanegu gwerth a chefnogi uwch reolwyr i ddarparu rheolaeth effeithiol a nodi cyfleoedd i wella gwerth am arian;
- Cefnogi'r Swyddog Adran 151 i gyflawni cyfrifoldebau ariannol statudol;
- Darparu gwasanaeth archwilio mewnol sy'n bodloni gofynion y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio ac sy'n cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2013;
- Gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau archwilio sydd ar gael a darparu gwasanaeth effeithiol.

### Rhoi Sicrwydd

3. Dan delerau'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio, mae gofyn i'r Cyngor gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei system rheolaeth fewnol. Mae Archwilio Mewnol yn rhan annatod o'r system honno, ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at y gwaith o baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB). Prif nod y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol **(Atodiad B)** yw darparu sicrwydd parhaus a blynyddol i CSYM o effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol sydd ar waith, gan gynnwys rheoli risg a llywodraethu a rhoi hyder i'w budd-ddeiliaid. Fel y gall y Gwasanaeth Archwilio Mewnol fedru darparu'r sicrwydd angenrheidiol, mae mecanweithiau corfforaethol ar gyfer cynhyrchu a choladu'r dystiolaeth wedi cael eu datblygu a'u gweithredu gyda chefnogaeth lawn y Prif Weithredwr a'r Arweinydd, gyda chefnogaeth yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth sydd,

yn y pen draw, yn gyfrifol am sicrhau bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gywir ac y gellir ei wirio.

### Cyflawniadau Craidd Allweddol ar gyfer 2017/18

4. Ystyrir mai'r canlynol yw'r pethau allweddol y mae'n rhaid i ni eu cyflawni:

- Rhoi sicrwydd parhaus i reolwyr ar gyfanrwydd, effeithiolrwydd a gweithrediad system rheolaeth fewnol CSYM.
- Cyflawni Cynllun Archwilio Blynyddol.
- Cynhyrchu dull cydlynol yn seiliedig ar risg ar gyfer archwilio systemau busnes / gweithredol ar draws yr Awdurdod.
- Cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2013.
- Cynnal hunanasesiad blynyddol i werthuso cydymffurfiad â'r safonau, i asesu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gweithgaredd archwilio mewnol a nodi cyfleoedd i wella.
- Sicrhau y gweithredir ar yr ymatebion i argymhellion archwilio y cytunwyd arnynt gan reolwyr.
- Cydymffurfio â gofynion statudol i ddarparu system ddigonol ac effeithiol i gynnal archwiliad mewnol o'r cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheolaeth fewnol yn unol ag arferion archwilio mewnol priodol.
- I adlewyrchu Fframwaith Rhyngwladol: Llywodraethu Da o fewn y Sector Gyhoeddus a fydd yn bwydo i mewn i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Datblygu ein rôl a gweithio'n agos gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant.

## Rôl a Diben y Gwasanaeth Archwilio Mewnol

5. Ceir manylion am y sail statudol ar gyfer y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 - Rheoliad 7 (1), sy'n datgan bod *rhaid i awdurdodau lleol gynnal system archwilio mewnol sy'n ddigonol ac effeithiol ar gyfer archwilio ei gofnodion cyfrifyddu a'i system o reolaeth fewnol yn unol ag arferion priodol.* Mae CSYM yn cydnabod y gofyniad statudol hwn yn ei Reoliadau Ariannol.

6. Yn ogystal â'r uchod, mae gan y Prif Swyddog Cyllid ddyletswydd statudol dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 i sefydlu fframwaith clir ar gyfer gweinyddu busnes yr awdurdod mewn modd priodol. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd honno, mae'r Swyddog Adran 151 yn dibynnu, ymhlith pethau eraill, ar y gwaith y mae Archwilio Mewnol yn ei wneud i adolygu systemau rheolaeth fewnol, rheolaeth ariannol a phrosesau sicrwydd eraill.

7. Mae'r safonau ar gyfer "arferion priodol" mewn perthynas ag archwilio mewnol yn cael eu nodi yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2013 a

gynhyrchwyd gan CIPFA a chyrff eraill sy’n gosod safonau. Mae'r gwasanaeth archwilio mewnol yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau hyn a adlewyrchir yn ein Siarter Archwilio Mewnol a’n Cylch Gorchwyl.

8. Caiff safon ac ansawdd ein gwasanaeth ei sgriwtineiddio mewn chwe ffordd yn bennaf:

- Sgriwtini gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant
- Adolygiad gan Archwilwyr Allanol
- Adborth a chanfyddiadau cwsmeriaid
- Defnyddio pecyn cymorth hunanasesu CIPFA bob blwyddyn
- Asesiad allanol o’r Hunanasesiad PSIAS
- Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth

## Protocol ar gyfer Adolygiadau Archwilio

9. Penodir archwilydd arweiniol ar gyfer pob adolygiad archwilio i gynorthwyo i ddatblygu sgôp pob archwiliad a sicrhau bod ffocws priodol ar risgiau allweddol canfyddedig, gan ddarparu sicrwydd a sicrhau’r gwerth ychwanegol mwyaf posibl. Bydd cylch gorchwyl yn cael ei gynhyrchu ar gyfer pob adolygiad archwilio a cheir trafodaeth gyda rheolwyr i sicrhau bod sgôp, amcanion a dulliau yn cael eu deall a'u cytuno.

10. Caiff adroddiadau archwilio mewnol drafft eu cyhoeddi ar gyfer trafodaeth gyda rheolwyr priodol.

11. Caiff adroddiadau archwilio mewnol terfynol eu cyhoeddi ar ôl cytuno ar yr adroddiadau drafft a byddant yn cynnwys cynlluniau gweithredu cyflawn sy'n nodi pwy sy'n gyfrifol am weithredu a’r amserlenni gofynnol.

12. Caiff argymhellion y cytunwyd arnynt a'r camau gweithredu cysylltiedig eu dilyn i fyny ymhen chwe mis o gyhoeddi'r adroddiad archwilio neu’n gynt os ystyrir bod angen a hynny mewn trafodaeth ag uwch reolwyr.

## Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer 2017/18

13. Gan ystyried proffil risg presennol CSYM, nodwyd y meysydd canlynol fel materion allweddol a rhai y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt yn ein gwaith ar gyfer 2017/18:

### Systemau Ariannol Allweddol

14. Mae effeithiolrwydd rheolaethau a rheoli risgiau mewn systemau ariannol allweddol yn parhau i fod yn rhan greiddiol o'n gwaith archwilio. Mae'r gwaith hwn yn bwysig wrth roi sicrwydd blynyddol i CSYM ac i gefnogi gwaith archwilwyr allanol yr Awdurdod.

**Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol**

15. Mae fframwaith llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod yn berthnasol i bob agwedd ar ei fusnes, gan gynnwys rheoli risg, rheolaeth fewnol a safonau moesegol. Rydym yn cyflawni rôl allweddol o ran cefnogi ac adolygu'r fframwaith a rhoi sicrwydd ei fod yn gweithredu'n effeithiol ac yn unol ag arfer orau trwy gynnal adolygiadau archwilio.

**Rheoli Risg**

16. Mae gennym rôl bwysig i hyrwyddo rheoli risg yn effeithiol ar draws yr Awdurdod ac i asesu cydymffurfiaeth ag arferion rheoli risg da a digonolrwydd y rheolaethau a roddwyd ar waith gan y rheolwyr i liniaru risgiau yn eu meysydd gwasanaeth.

**Contractio a Chaffael**

17. Bydd y gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar gontractio a chaffael er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth a'r Rheolau Gweithdrefn Contract newydd a gymeradwywyd ym mis Medi 2015, er mwyn darparu sicrwydd bod prosesau'n gweithredu'n effeithiol ac yn unol ag arferion gorau.

**Grantiau**

18. Byddwn yn cynnal adolygiadau o'r grantiau yr ydym yn eu derbyn ac yn eu talu mewn meysydd lle nad yw sicrwydd archwilio allanol yn cael ei ddarparu neu pan fo pryderon ynghylch gweithrediad yr amgylchedd rheoli mewnol. Byddwn yn darparu sicrwydd o ran cydymffurfio â thelerau ac amodau grant ac o ran y systemau rheolaeth sydd ar waith.

**Archwiliad o Wasanaethau a Systemau Eraill**

19. Byddwn yn adolygu gwasanaethau, systemau a phrosesau eraill yn unol ag asesiad o risg ac anghenion y busnes. Gall hyn gynnwys systemau ariannol, gweinyddol neu weithredol.

**Gwasanaethau Ymgynghori**

20. Yn ychwanegol at y gwasanaethau sicrwydd y cytunwyd arnynt ac a ddarperir i gynorthwyo rheolwyr i gwrdd ag amcanion yr Awdurdod, bydd Archwilio Mewnol hefyd yn darparu ystod o wasanaethau ymgynghorol sy'n cynnwys:

- ➢ Cyngor ac arweiniad i reolwyr mewn perthynas ag amrediad o faterion, gan gynnwys gweithredu systemau, cydymffurfio â rheoliadau, gweithdrefnau a pholisïau a gofynion rheolaeth fewnol;

- Hyfforddiant;
- Atgyfeiriadau gan gynnwys gwaith sy'n ymwneud â thwyll.

21. Mae Archwilio Mewnol yn gweithredu mewn rôl ymgynghorol wrth gynghori rheolwyr mewn perthynas â materion o fewn ei gylch gwaith, megis gweithredu'r rheolaethau priodol o ran prosiectau, datblygiadau a systemau newydd. Caiff union ddyraniad yr adnoddau o ran gwaith ymgynghorol ei bennu yn y cynllun archwilio. Caniateir dyraniadau amser ar wahân ar gyfer gweithgareddau ymgynghorol, gwaith sy'n ymwneud â thwyll ac archwiliadau dilynol.

**Gwaith Atal Twyll**

22. Byddwn yn adolygu ac yn ceisio sicrhau cadernid trefniadau'r Awdurdod ac yn adolygu'r fframwaith atal twyll ac yn nodi meysydd lle mae risg o dwyll. Byddwn yn parhau i gymryd rhan yn y Fenter Genedlaethol i Atal Twyll. Mae Archwilydd Cyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal y Fenter hon (NFI) bob dwy flynedd i gynorthwyo cyrff cyhoeddus yn eu brwydr yn erbyn twyll. Mae'r Fenter yn cyfatebu data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i nodi hawliadau a thrafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'r Fenter wedi bod yn offeryn effeithiol iawn i ganfod twyll a gordaliadau ac wedi sicrhau arbedion i bwrs y wlad ers ei sefydlu yn 1996.

**Cefnogaeth i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant**

23. Byddwn yn gweithio'n agos gydag Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant i ddatblygu ei rôl mewn perthynas ag arfer orau ac i gyfrannu tuag at lywodraethiant corfforaethol effeithiol yr awdurdod.

## Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol

24. Er mwyn gwneud y gwaith a gynlluniwyd, darparu safon uchel o wasanaeth i gwsmeriaid a dangos bod y gwasanaeth yn effeithiol, rydym wedi sefydlu targedau perfformiad yn seiliedig ar yr arferion proffesiynol gorau sy'n cael eu defnyddio i bwrpas cymharu ar sail Cymru gyfan. Mae'r dangosyddion perfformiad yn dangos ansawdd ac effeithiolrwydd perfformiad y gwasanaeth yn erbyn targedau a osodwyd.

25. Nodir y dangosyddion perfformiad a'r targedau ar gyfer chwe agwedd ar ein gwasanaeth yn **Atodiad E**.

- Cost ac ansawdd y mewnbwn
- Cynhyrchiant ac effeithlonrwydd y broses
- Ansawdd y cynnyrch
- Cydymffurfiaeth â safonau proffesiynol
- Canlyniadau a maint y dylanwad
- Staff

## Darparu'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn 2017/18

26. Bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu gan dîm mewnol o 6 o swyddogion amser llawn. Mae'r adnodd archwilio sydd ar gael yn parhau i fod yn 1,560 diwrnod.

27. Mae sgiliau ac arbenigedd digonol yn y gwasanaeth i ddarparu'r ystod lawn o archwiliadau ac sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Blynyddol, i reoli'r gwasanaeth yn effeithlon ac yn effeithiol ac i roi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar ddigonolrwydd y rheolaeth fewnol a'r prosesau rheoli risg a llywodraethiant corfforaethol sydd wedi cael eu sefydlu.

## Datblygu'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol

28. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir ar gyfer datblygu'r Cynllun Archwilio Mewnol Blynyddol yn canolbwyntio ar feintioli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag amcanion CSYM mewn ymgynghoriad â swyddogion allweddol. Cyfarfu'r Rheolydd Archwilio gyda'r Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwyr a'r holl benaethiaid gwasanaeth yn ystod y broses o gynllunio archwilio fel bod y cynllun yn fwy cynhwysol, yn canolbwyntio ar y meysydd iawn ac yn hyblyg er mwyn cwrdd ag anghenion yr Awdurdod. Yn ystod y broses ymgynghori, nodwyd nifer o feysydd lle mae risgiau'n esblygu a lle bydd deddfwriaeth newydd, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yn effeithio ar eu gwasanaethu ac yn nodi meysydd y mae angen rhoi blaenoriaeth iddynt o safbwynt archwilio.

20 Yn ystod 2016, bûm yn ymgynghori gyda chyrff gwasanaethau cyhoeddus ynglŷn â'r ffordd orau i mi gyflawni fy nyletswyddau amrywiol gan sicrhau'r cydbwysedd mwyaf priodol ac ychwanegu gwerth trwy:

- ddarparu sicrwydd ynglŷn â llywodraethu a stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus;
- gynnig cipolwg o'r graddau y defnyddir adnoddau'n ddoeth er mwyn diwallu anghenion pobl; a
- nodi a hyrwyddo ffyrdd y gellir gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus.

21 Yn ogystal â'r rhaglen flynyddol o waith archwilio ac asesu, mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal rhaglen o Astudiaethau Llywodraeth Leol. Caiff y gwaith ei gynnwys yn amcangyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru ac nid ffioedd lleol. Mae Arddangosyn 4 yn crynhoi'r sefyllfa bresennol ynglŷn â'r rhaglen astudiaethau presennol. Mae'r astudiaethau hyn yn arwain yn bennaf at adroddiad cenedlaethol sy'n cynnwys arfer da a deilliannau

dysgu cyfrannol yn hytrach nag adroddiadau lleol. Bydd canfyddiadau lleol, lle bo'n briodol, yn cael eu casglu fel rhan o waith asesu gwelliannau ac yn cael ei adrodd mewn Adroddiadau Gwelliant Blynyddol gan ddibynnu ar amseriad a ffocws y canfyddiadau.

Arddangosyn 4: Astudiaethau Llywodraeth Leol

| Astudiaeth | Statws |
| --- | --- |
| **Astudiaethau 2015-16** | |
| Diogelwch y gymuned | Cyhoeddwyd ym mis Hydref 2016 |
| Cynhyrchu incwm a chodi tâl | Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016 |
| Y Cyngor yn cyllido gwasanaethau trydydd sector | Cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017 |
| **Astudiaethau 2016-17** | |
| Sut mae llywodraeth leol yn rheoli galw | Gwaith maes |
| Comisiynu strategol | Gwaith maes |
| Gwell llesiant trwy addasu cartrefi | Gwaith maes |

22 Gan ystyried yr holl ffactorau yma, bydd fy rhaglen waith ar gyfer 2017-18 yn cynnwys:

Arddangosyn 5: rhaglen archwilio perfformiad

| Rhaglen Archwilio Perfformiad | Disgrifiad Byr |
| --- | --- |
| Gwaith archwilio ac asesu gwelliannau<br>• Archwiliad ac adrodd ar Gynllunio Gwelliant<br>• Dilyniant ar gynigion lleol a chenedlaethol ar gyfer gwelliannau/argymhellion<br>• Prosiectau lleol yn seiliedig ar risg – i'w cadarnhau<br>• Adroddiad Gwelliannau Blynyddol | Ardystiad sylfaenol o'r cynllun gwelliant a'r adroddiad blynyddol.<br>Dilyniant ar gynigion lleol a chenedlaethol ar gyfer gwelliannau/argymhellion.<br>Bydd Briffiau Prosiect yn cael eu rhannu cyn cychwyn ar waith prosiect.<br>Crynodeb o waith archwilio perfformiad a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. |
| Asesiad gwaelodlin Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Sylwebaeth Blwyddyn Un: Byddwn yn casglu tystiolaeth ynglŷn â sut mae'r 44 corff yn dechrau ymateb i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn nodi enghreifftiau o arfer nodedig sy'n dod i'r amlwg. Bydd y gwaith yn cael ei lunio i gefnogi gwelliant ac i hysbysu gwaith archwilio ar y dyfodol dan y Ddeddf. |

| Rhaglen Archwilio Perfformiad | Disgrifiad Byr |
|---|---|
| Adolygiad Craffu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Bydd yr adolygiad hwn yn edrych ar effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith pwyllgorau craffu, gan gynnwys gwaith craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, hwyluso gwelliant a rhannu arfer da. |
| Adolygiad o Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaeth | Gan adeiladu ar y gwaith a wnaed ar yr Astudiaeth Llywodraeth Leol yn ymwneud ag Ymdrin â Dibyniaeth a Galw, bydd y prosiect hwn yn profi'r cyswllt rhwng y gwasanaeth a'r defnyddwyr ym mhob awdurdod. Bydd yr adolygiad yn gwerthuso sut mae'n teimlo (fel aelod o'r cyhoedd) i ymdrin â gwasanaethau'r cyngor, gan gynnwys detholiad o wasanaethau a sefyllfaoedd. |

23 Gweler y prosiectau archwilio perfformiad a gafodd eu cynnwys yng Nghynllun Archwilio'r llynedd sydd yn parhau i fod ar waith neu wedi cael eu hamnewid am brosiectau eraill ar ôl cytuno â chi, yn Atodiad 2.

# Ffi, tîm archwilio a'r amserlen

## Ffi

24 Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud elw o ffioedd. Dan y ddeddfwriaeth, ni chaiff ffioedd a godir fod yn uwch na'r gost lawn sy'n gysylltiedig â chyflawni'r swyddogaeth y codir y ffi amdani. Gosodir y cyfraddau ffioedd er mwyn adennill y gost honno'n llawn. Mae fy nghyfraddau ffioedd wedi cael eu cadw ar yr un lefel ar gyfer 2017 a bydd fy nhimau archwilio yn parhau i chwilio am arbedion effeithlonrwydd yn eu harchwiliadau ac maent yn awyddus i weithio gyda chi mewn modd adeiladol yn hyn o beth.

25 Nodir amcangyfrif o'ch ffi ar gyfer 2017 yn Arddangosyn 6.

Arddangosyn 6: ffi archwilio

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig (£)[1] | Y ffi wirioneddol y llynedd (£) |
|---|---|---|
| **Archwiliad o'r cyfrifon[2]** | **192,000** | **193,000** |
| **Gwaith archwilio perfformiad: [3]** | **100,261** | **101,472** |
| **Gwaith ardystio grantiau[4]** | **135,000** | **135,000** |
| **Cyfanswm ffi:** | **427,261** | **429,472** |

Nodiadau:

1 Nid yw'r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, ac ni chodir y dreth hon arnoch chi bellach

2 Yn daladwy rhwng mis Tachwedd 2016 a mis Hydref 2017

3 Yn daladwy rhwng mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018

4 Yn daladwy wrth i'r gwaith gael ei gynnal

26 Bydd y gwaith cynllunio yn parhau, ac mae'n bosibl y bydd angen newid fy rhaglen waith archwilio, ac felly fy ffi, os daw unrhyw risgiau newydd allweddol i'r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod ymlaen llaw gyda'r Cyngor.

27 Ceir rhagor o wybodaeth am fy ngraddfeydd ffioedd a'r broses o bennu ffioedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru: www.audit.wales/cy/amdanom-ni/graddfeydd-ffioedd-gosod-ffioedd.

# Tîm archwilio

28 Ceir crynodeb o brif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn Arddangosyn 7.

Arddangosyn 7: fy nhîm

| Enw | Rôl | Rhif Cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Ian Howse | Arweinydd Ymgysylltu - Archwilio Ariannol | 02920 264319 | ihowse@deloitte.co.uk |
| Michelle Hopton | Rheolwr Archwilio Ariannol | 01179 842881 | mhopton@deloitte.co.uk |
| Clare Edge | Rheolwr Archwilio Ariannol | 07708 936807 | cedge@deloitte.co.uk |
| Derwyn Owen | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 02920 320651 | Derwyn.Owen@audit.wales |
| Andy Bruce | Rheolwr Archwilio Perfformiad | 07919 164779 | Andy.Bruce@audit.wales |
| Gwilym Bury | Arweinydd Archwilio Perfformiad | 07813 564432 | Gwilym.Bury@audit.wales |

29 Gallaf gadarnhau bod holl aelodau fy nhîm yn annibynnol ar Gyngor Sir Ynys Môn â'ch swyddogion. Yn ogystal, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi dynnu eich sylw atynt.

# Amserlen

30 Byddaf yn darparu adroddiadau, neu allbynnau eraill y cytunwyd arnynt, i'r Cyngor sy'n ymdrin â'r meysydd gwaith a nodir yn y ddogfen hon. Mae fy ngherrig milltir allweddol yn cael eu nodi yn Arddangosyn 8.

Arddangosyn 8: amserlen

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wnaed | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| **Cynllun Archwilio 2017** | Mawrth i Ebrill 2017 | Ebrill 2017 |
| **Gwaith cyfrifon ariannol:**<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol<br>• Barn ar Ddatganiadau Ariannol<br>• Memorandwm Cyfrifon Ariannol | Gorffennaf - Medi 2017 | Medi 2017 |

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wnaed | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| Gwaith archwiliad perfformiad: Bydd y rhaglen yn cael ei chadarnhau cyn gynted ag sy'n ymarferol: Gweler paragraffau 22 i 26 uchod | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau |
| Adroddiad Gwelliannau Blynyddol | Trwy gydol y flwyddyn | Mai 2017 |
| Adroddiad Archwiliad blynyddol | Mai - Tachwedd 2017 | Tachwedd 2017 |
| Cynllun Archwilio 2018 | Chwefror - Mawrth 2018 | Ebrill 2018 |

* Yn ddibynnol ar glirio canfyddiadau drafft gyda Chyngor Sir Ynys Môn.

# Datblygiadau i'm gwaith archwilio at y dyfodol

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

31 Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn gyfraith ym mis Ebrill 2015. Mae'r Ddeddf yn gofyn i mi wneud adroddiad cyn etholiad nesaf y Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â sut mae cyrff cyhoeddus yn gweithredu'n unol â'r egwyddorion datblygiad cynaliadwy wrth osod eu hamcanion llesiant a chymryd camau tuag ar eu bodloni. Yn 2017, byddaf yn cynnal fy narn cyntaf o waith dan y Ddeddf -Sylwebaeth ar y Flwyddyn Gyntaf - er mwyn deall sut mae cyrff yn dechrau ymateb i'r gofynion. Byddaf hefyd yn gweithio ar y cyd gyda nifer fechan o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys y sector llywodraeth ganolog, er mwyn datblygu arddull archwilio sy'n ystyrlon a chymesur ac yn gallu cael ei fabwysiadu mewn blynyddoedd sydd i ddod.

## Arall

32 Amlinellir manylion datblygiadau eraill ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys newidiadau i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) allweddol ac i seminarau Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru yn Atodiad 4.

33 Mae rhaglen Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at gefnogi gwelliant i wasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru drwy adnabod a rhannu arfer da. Mae seminarau'r Gyfnewidfa yn dod â chyrff sector cyhoeddus ynghyd i rannu eu profiad a'u dysg ymarferol mewn meysydd y byddem yn ystyried y gallent elwa o rannu arfer da. Darperir y seminarau'n rhad ac am ddim i fynychwyr. Mae digwyddiadau arfaethedig yn cynnwys:

- Yr heriau a ddaw gyda gwasanaethau a ariennir gan arian cyhoeddus nad yw'n cael ei ddarparu'n uniongyrchol yng Nghymru

- Sut mae Rheoli Risg o amgylch Newid Sefydliadol, Trawsnewid Gwasanaeth ac Arloesedd
- Mesur Deilliannau: pwy sy’n gwneud hynny a sut (yn gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol).

# Atodiad 1

## Priod gyfrifoldebau

### Archwilio cyfrifon

Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi fy mhwerau a'm dyletswyddau i gynnal eich archwiliad ariannol. Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar y canlynol:

- eu 'cywirdeb a'u tegwch' gan roi sicrwydd eu bod:
  - yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall;
  - yn cydymffurfio â gofynion statudol a gofynion cymwys eraill; ac
  - yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu o ran cyfrifyddu;
- cysondeb y wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol.

Mae'n rhaid i mi hefyd ddatgan drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â'r gofynion, os na chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir, os na wnaed y datgeliadau gofynnol ar gyfer cydnabyddiaeth a thrafodion eraill neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi asesu a yw'r Awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Er mwyn cyflawni hyn, byddaf yn ystyried y canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;
- system rheolaeth fewnol Cyngor Sir Ynys Môn, fel y nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'm hadroddiad cysylltiedig;
- canlyniadau gwerth arall a wnaed gan gynnwys gwaith a gynhaliwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), ardystiad hawliadau ac adroddiadau, ac ymarferion paru data;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, a lle bo hynny'n berthnasol i'm cyfrifoldebau; ac
- unrhyw waith arall sy'n ymdrin â materion nad ydynt yn cael eu cwmpasu yn yr uchod, ac yr wyf o'r farn ei fod yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni fy nyletswyddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn a dogfennau cysylltiedig, gofyn cwestiynau i mi, fel yr Archwilydd Penodedig, am y cyfrifon a, lle y bo'n briodol, herio eitemau yn y cyfrifon. Rhaid i mi hefyd ystyried pa un a ddylwn lunio adroddiad, er budd y cyhoedd, ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw wrth i mi gynnal yr archwiliad.

Nid yw fy ngwaith archwilio yn rhyddhau rheolwyr, na'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, o'u cyfrifoldebau sy'n cynnwys:

- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â safonau a chanllawiau cyfrifyddu cymwys;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol; a
- sicrhau gwerth am arian o ran y defnydd a wneir o adnoddau.

Mae'r rheolwyr yn cytuno i ddarparu'r canlynol i mi:

- mynediad at yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- gwybodaeth ychwanegol y gallaf ofyn amdani gan y rheolwyr er mwyn cynnal yr archwiliad; a
- mynediad anghyfyngedig i unigolion o fewn Cyngor Sir Ynys Môn y byddaf yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt.

Bydd angen i'r rheolwyr roi datganiadau ysgrifenedig i mi er mwyn cadarnhau'r canlynol:

- eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol;
- bod pob trafodyn wedi'i gofnodi ac wedi'i adlewyrchu yn y datganiadau ariannol;
- bod y wybodaeth a roddwyd i mi er mwyn cynnal yr archwiliad yn gyflawn; a
- chefnogi tystiolaeth archwiliad arall sy'n berthnasol i'r datganiadau ariannol neu honiadau penodol yn y datganiadau ariannol os byddaf yn ystyried hynny'n angenrheidiol neu os mae'n ofynnol dan y Safon Ryngwladol ar Archwilio.

## Archwilio perfformiad

Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Mae hefyd yn gosod gofynion penodol ar awdurdodau i bennu amcanion gwella, ac i gyhoeddi cynlluniau gwella blynyddol ac asesiadau o berfformiad. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal asesiad gwella ar gyfer pob awdurdod gwella bob blwyddyn, er mwyn pennu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'i ddyletswydd gyffredinol a gofynion y Mesur. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal archwiliadau i nodi pa un a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran gwella, cynllunio ac adrodd.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

# Atodiad 2

## Gwaith perfformiad yn amlinelliad archwiliad y llynedd sydd dal ar waith

Arddangosyn 10: Statws ar waith archwilio perfformiad 2016-17 sy'n cael ei gynnwys yn Amlinelliad Archwiliad 2016-17

| Prosiect archwilio perfformiad | Statws | Sylwadau |
|---|---|---|
| Thema Drawsnewidiol | Heb ei ddechrau | Disgwylir y bydd wedi'i gwblhau erbyn Mehefin 2017 |
| Prosiectau Lleol | Gwaith maes ar waith | I'w adrodd yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol – Mai 2017 |
| Cynllunio arbedion | Wedi'i gwblhau | Cyhoeddi'r adroddiad ar ddechrau Mawrth 2017 |
| Llywodraethu da wrth bennu newidiadau sylweddol i'r gwasanaeth | Drafftio adroddiad | Disgwylir i'r adroddiadau drafft gael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2017 |

# Atodiad 3

## Astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Mae’n bosibl y bydd gan Gyngor Sir Ynys Môn ddiddordeb hefyd yn yr archwiliadau gwerth am arian cenedlaethol yr wyf yn eu cynnal, a bydd rhai ohonynt yn berthnasol i, ac efallai'n cynnwys casglu tystiolaeth ar draws llywodraeth leol. Caiff yr astudiaethau eu cefnogi gan gyllid sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol. Cyflwynir adroddiadau i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol i gefnogi’r gwaith craffu ar wariant cyhoeddus, ac o bosibl i gefnogi gwaith craffu gan bwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae’r tabl isod yn cwmpasu’r holl waith astudiaethau gwerth am arian sydd ar y gweill ar hyn o bryd.
Mae'r rhaglen hon yn cynnwys crynodebau Cymru-gyfan o waith archwilio a wnaed yn lleol yn y GIG ac archwiliadau ymatebol o feysydd penodol sy'n peri pryder i'r cyhoedd a godwyd â mi. Yn ogystal â’r gwaith a amlinellir isod, mae’n bosibl y byddaf yn penderfynu paratoi adroddiadau cenedlaethol eraill yn ystod y flwyddyn a fydd yn crynhoi gwaith archwilio lleol ar ganfyddiadau archwiliadau ymatebol.

Rwyf hefyd yn ymgynghori ar hyn o bryd gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â chynnwys nifer o astudiaethau gwerth am arian newydd yn fy rhaglen waith i’w cynnal yn ystod 2017-18. Er enghraifft, rwyf eisoes wedi crybwyll gyda’r Pwyllgor, yn dilyn fy adroddiad ym mis Gorffennaf 2016 ar Lywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Ltd, fy mod yn ystyried archwiliad ehangach o gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer busnes.

Byddwch yn derbyn diweddariadau ynglŷn â fy rhaglen o astudiaethau gwerth am arian o fewn yr adroddiadau cynnydd rheolaidd a gynhyrchir gan fy nhîm.

Arddangosyn 11: Pynciau astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol a phryd y byddant yn debygol o gael eu cyhoeddi

| Pwnc | Amserlen gyhoeddi arfaethedig |
|---|---|
| Apwyntiadau Dilynol i Gleifion Allanol | Chwefror 2017 |
| Llywodraethu a throsolwg o gyrff hyd-braich (papur trafod) | Chwefror 2017 |
| Trosolwg Llywodraeth Cymru o gyllid a darpariaeth sefydliadau addysg bellach | Mawrth 2017 |
| Cylchffordd Cymru | Chwefror 2017 |
| Comisiynu gwasanaethau ambiwlans brys | Chwefror 2017 |
| Rhaglen addysg ac ysgolion 21ain ganrif | Mawrth 2017 |
| Adolygiad o'r sefyllfa caffael gyhoeddus | Ebrill - Gorffennaf 2017 |

| Pwnc | Amserlen gyhoeddi arfaethedig |
|---|---|
| Rheoli gwastraff (atal gwastraff) | Ebrill - Gorffennaf 2017 |
| Rheoli gwastraff (ailgylchu trefol) [1] | Ebrill - Gorffennaf 2017 |
| Gweithrediad Deddf Cyllid GIG (Cymru) 2014 (cynllunio tymor canolig integredig) | Ebrill - Gorffennaf 2017 |
| Rhaglen Cefnogi Pobl | Ebrill - Gorffennaf 2017 |
| Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru | Ebrill - Gorffennaf 2017 |
| Mynediad at wasanaethau cyhoeddus gyda chefnogaeth cyfieithu a chyfieithu ar y pryd arbenigol | Awst - Hydref 2017 |
| Paratoadau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru (adroddiad dilynol) | Awst - Hydref 2017 |
| Ymyrraeth gynnar a newid ymddygiad | I'w gadarnhau [2] |

[1] Yn ogystal â'r gwaith yn ymwneud ag atal gwastraff ac ailgylchu trefol, byddaf yn cynnal adolygiad o isadeiledd trin gwastraff ar ddechrau 2017.

[2] Mae fy rhaglen o waith yn ymwneud ag arfer da wedi cynnwyd prosiect yn edrych ar waith newid ymddygiad ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a chyfleoedd i wella arferion, i ddarparu gwell deilliannau ar gyfer dinasyddion, ac i sicrhau mwy o werth am arian. Rwy'n dal i ragweld y bydd y wybodaeth a'r dystiolaeth a gesglir fel rhan i'r gwaith hwn yn cefnogi cynhyrchu adroddiad ar y pwnc, er y bydd yn annhebyfol o fod yn adroddiad archwilio traddodiadol, ac mae'r cynlluniau ar gyfer ei gyhoeddi yn parhau i fod i'w cadarnhau.

# Atodiad 4

## Datblygiadau eraill ar gyfer y dyfodol

### Newidiadau IFRS allweddol sydd ar y gweill (yn berthnasol i bob corff llywodraeth leol)

Arddangosyn 13: Newidiadau sydd ar y gweill o ran safonau cyfrifyddu

| Y safon gyfrifyddu | Y dyddiad dod i rym | Manylion pellach |
|---|---|---|
| **Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 9 – Offerynnau ariannol** | 2018-19 | Bydd IFRS 9, sy'n ymwneud ag offerynnau ariannol, yn cymryd lle Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 39 ac mae'n cynnwys dull newydd, sy'n seiliedig ar egwyddorion, o ddosbarthu a mesur asedau ariannol. Mae hefyd yn cyflwyno methodoleg newydd ynghylch diffygiannau i asedau ariannol sydd wedi'i seilio ar golledion a ddisgwylir yn hytrach na cholledion a grëwyd. Bydd hyn yn golygu bod colledion credyd yn cael eu cydnabod yn gynharach. Mae bron pob un o'r gofynion cyfrifyddu sy'n ymwneud â rhwymedigaethau ariannol yn cael ei drosglwyddo o IAS 39 heb ei newid. |
| **IFRS 15 Refeniw o gynotractau â chwsmeriaid** | 2018-19 | Mae IFRS 15, sy'n ymwneud â refeniw o gontractau â chwsmeriaid, yn cwyflwyno model pum cam sydd wedi'i seilio ar egwyddorion ar gyfer cydnabod refeniw ay'n deillio o gontractau â chwsmeriaid. Mae'n seiliedig ar egwyddor greiddiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r drefn o gydnabod refeniw ddangos achos o nwyddau neu wasanaethau a addawyd yn cael eu trosglwyddo i'r cwsmer ar ffurf swm sy'n adlewyrchu'r gydnabyddiaeth y mae'r corff yn disgwyl y bydd ganddo hawl iddi, yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny. Bydd hefyd yn gofyn am ddatgeliadau mwy helaeth nag sy'n ofynnol ar hyn o bryd. |
| **IFRS 16 - Prydlesi** | 2019-20 | Bydd IFRS 16 yn cymryd lle'r safon bresennol ynghylch prydlesi, sef IAS 17. Y prif newid yw'r ffaith ei bod, i raddau helaeth, yn dileu'r gwahaniaeth rhwng prydlesi gweithredol a phrydlesi cyllidol ar gyfer prydleswyr. Mae'n gwneud hyn drwy gyflwyno un model cyfrifyddu ynglŷn â phrydleswyr, sy'n ei gwneud yn ofynnol i brydleswr gydnabod asedau a rhwymedigaethau yng nghyswllt pob prydles y mae ei chyfnod yn hwy na 12 mis, oni bai bod yr ased gwaelodol â gwerth isel. O ganlyniad, bydd pob prydles yn cael ei chydnabod ar y fantolen yn ased ar sail egwyddor 'hawl i ddefnyddio', gyda  rhwymedigaeth gyfatebol ar gyfer rhentu yn y dyfodol. Mae hwn yn newid mawr i'r dull o gyfrifyddu yng nghyswllt prydlesi. |

## Cyfnewidfa Arfer Da

Mae'r Gyfnewidfa Arfer Da (GPX) yn helpu gwasanaethau cyhoeddus i wella drwy rannu gwybodaeth ac arferion sy'n gweithio. Cynhelir digwyddiadau ble mae pobl yn gallu rhannu gwybodaeth wyneb i wyneb a rhannu adnoddau ar lein.

Mae digwyddiadau'r Gyfnewidfa Arfer Da yn canolbwyntio'n bennaf ar reolaeth ariannol, staff sector cyhoeddus a llywodraethu.

Ceir mwy o wybodaeth, gan gynnwys manylion digwyddiadau GPX ar gyfer y dyfodol a chasgliadau seminarau blaenorol ar gael ar y wefan. GPX website. Bydd modd cofrestru ar gyfer y digwyddiadau ddeufis cyn y digwyddiad.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## BLAENRAGLEN WAITH

MAWRTH 28, 2017

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Sioned Parry |
| | Rheolwr Archwilio |
| E-bost: | SionedParry@ynysmon.gov.uk |
| Ffôn: | 01248 756211 |

| Dyddiad | Pwnc | Swyddog cyfrifol<br>(Gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **25 Gorffennaf, 2017**<br><br>**Medi 21, 2017**<br><br>**Rhagfyr 5, 2017**<br><br>**Chwefror 13, 2018** | **Cynnydd a wnaed ynghylch Adroddiadau gan Reoleiddwyr Allanol**<br>Ystyried y cynnydd a wnaed ynghylch Adroddiadau gan Reoleiddwyr Allanol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â materion llywodraethu neu reoli risg o fewn y Cyngor. | **Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad**<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Medi 21, 2017** | **Ymchwiliadau i Fudd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor**<br>Bydd yr adroddiad yn nodi manylion y ceisiadau yr ymchwiliwyd iddynt yn llwyddiannus gan y Tîm Ymchwilio i Fudd-daliadau. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Mehefin 28, 2017**<br>**25 Gorffennaf, 2017**<br>**Rhagfyr 5, 2017**<br>**Chwefror 13, 2018** | **Perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn y Cynllun Archwilio Blynyddol**<br>Adolygu perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn y Cynllun Archwilio Blynyddol bob chwarter. | **Rheolwr Archwilio**<br>SionedParry@ynysmon.gov.uk |
| **Mehefin 28,** | **Addroddiad Drafft y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)** | **Pennaeth Swyddogaeth** |

| | | |
|---|---|---|
| **2017** | **ynghylch yr Adroddiad Cyllid a Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2016/17.** | **(Adnoddau)**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Medi 21, 2017** | **Adroddiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2017/2018**<br>Bydd yr adroddiad yn ymhelaethu ar sefyllfa'r Cyngor o ran cydymffurfio â'i Strategaeth Rheoli Trysorlys a'i Strategaeth Fuddsoddi, ac yn nodi'r sefyllfa gyfredol o ran buddsoddiadau a benthyca. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Medi 21, 2017** | **Gweithgaredd Rheoli Trysorlys a Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol ar gyfer 2017/2018**<br>Mae'n rhaid darparu adroddiad trysorlys blynyddol yn unol â gofynion gweithdrefnau adrodd y Cyngor ac mae'n rhoi sylw i weithgarwch y trysorlys ar gyfer 2017/2018. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys y Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol ar gyfer 2017/2018 yn unol â gofynion y Côd Darbodus. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **Medi 21, 2017** | **Adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Ariannol ynghylch yr Adroddiad Cyllid a Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2016/2017.**<br>Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am gymeradwyo'r cyfrifon ar ran y Cyngor, ac mae hefyd yn gyfrifol am faterion llywodraethu. Felly, mae angen i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo'r Adroddiad Cyllid a Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2016/2017, gan gynnwys Datganiad Cyfrifon 2016/2017, derbyn adroddiad yr Archwilydd Penodedig ar y cyfrifon a'r ISA 260 sy'n nodi bod gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Llythyr Cynrychiolaeth terfynol. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |

| | | |
|---|---|---|
| **Mawrth 28, 2017** | **Strategaeth a Chynllun Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am 2017-2018**<br>Cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus am 2013 lle cyflwynir Strategaeth a Chynllun Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'w cymeradwyo. | **Rheolwr Archwilio**<br>SionedParry@ynysmon.gov.uk |

| Eitemau yn y Dyfodol | | |
|---|---|---|
| **Mehefin 28, 2017** | **Cynllun Gweithredu ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2016/2017**<br>Adrodd ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r argymhellion yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2015/2016. | **Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad**<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Mehefin 28, 2017** | **Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2016/2017**<br>O dan delerau'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio, mae gofyn i'r Cyngor gynnal adolygiad bob blwyddyn o effeithiolrwydd ei system rheolaeth fewnol ac adolygu perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn Cynllun Archwilio Blynyddol 2016/2017. | **Rheolwr Archwilio**<br>SionedParry@ynysmon.gov.uk |
| **Gorffennaf 28, 2017** | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol**<br>Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu roi sylwadau ar gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2016/2017 a chyfrannu at yr arfarniadau, y casgliadau a'r argymhellion a gynigir i ddatblygu neu gryfhau elfennau o drefniadau llywodraethu'r Cyngor yn ystod 2017/2018. | **Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad**<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Mehefin 28, 2017** | **Diweddariad Archwiliad Mewnol:**<br>Diogelu Corfforaethol<br>Adfer TGCh ar ôl Trychineb | **Rheolwr Archwilio**<br>SionedParry@ynysmon.gov.uk |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHIANT** |
| **DYDDIAD:** | **28 MAWRTH 2017** |
| **TEILT YR ADRODDIAD:** | **PENODI AELODAU LLEYG** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CYMERADWYO'R BROSES AR GYFER PENODI AELODAU LLEYG** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **MARC JONES – PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **GWEITHREDU:** | **AR GYFER PENDERFYNIAD** |

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 26 Mai 2016, penderfynodd y pwyllgor geisio penodi aelodau lleyg newydd ar gyfer y cyfnod rhwng Mai 2017 a Mai 2022.

**1.2** Yn yr adroddiad a ganlyn, ceir manylion am y pecyn recriwtio arfaethedig a gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r pecyn a rhoi arweiniad ar rai elfennau o'r broses recriwtio.

## 2. CYMHWYSTER YMGEISWYR

**2.1** Caiff y gofyniad i benodi aelodau lleyg ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ei bennu ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Cefnogir y mesur gan ganllawiau statudol sy'n darparu mwy o fanylion ar feini prawf cymhwyster ymgeiswyr.

Petai darpar ymgeisydd yn cwrdd ag unrhyw un o'r meini prawf isod, byddai hynny'n ei atal/hatal rhag cael ei ystyried/hystyried i fod yn aelod lleyg o'r Pwyllgor, os ydynt :-

- Yn Gynghorydd ar hyn o bryd ar Gyngor Sir Ynys Môn;
- Yn gweithio ar hyn o bryd i Gyngor Sir Ynys Môn;
- Yn briod â neu'n bartner sifil i Gynghorydd sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd ar Gyngor Sir Ynys Môn;
- Yn briod â neu'n bartner sifil i berson sy'n gweithio ar hyn o bryd i Gyngor Sir Ynys Môn;
- Yn Gynghorydd ar hyn o bryd ar unrhyw Gyngor Sir, Cyngor Sir Bwrdeistrefol, Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub;
- Yn gweithio ar hyn o bryd i unrhyw Gyngor Sir, Cyngor Sir Bwrdeistrefol, Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub;
- Yn briod â neu'n bartner sifil i Gynghorydd sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd ar unrhyw Gyngor Sir, Cyngor Sir Bwrdeistrefol, Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub;
- Yn briod â neu'n bartner sifil i berson sy'n gweithio ar hyn o bryd i unrhyw Gyngor Sir, Cyngor Sir Bwrdeistrefol, Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub;
- Yn Gynghorydd Tref / Cymuned ar hyn o bryd;
- Yn gweithio ar hyn o bryd i Gyngor Tref / Cymuned;
- Yn briod â neu'n bartner sifil i Gynghorydd sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd ar unrhyw Gyngor Tref / Cymuned;

- Yn briod â neu'n bartner sifil i berson sy'n gweithio ar hyn o bryd i unrhyw Gyngor Tref / Cymuned;
- Ag unrhyw gyswllt busnes gyda Chyngor Sir Ynys Môn;
- Wedi bod, ar unrhyw adeg, yn Gynghorydd ar Gyngor Sir Ynys Môn
- Wedi bod, yn ystod y 12 mis diwethaf, yn Gynghorydd ar unrhyw Gyngor Sir (ac eithrio Cyngor Sir Ynys Môn), Cyngor Bwrdeistref Sirol, Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub;
- Wedi bod, ar unrhyw adeg, yn gyflogedig gan Gyngor Sir Ynys Môn;
- Wedi bod, yn ystod y 12 mis diwethaf, yn gyflogedig gan unrhyw Gyngor Sir (ac eithrio Cyngor Sir Ynys Môn), Cyngor Bwrdeistref Sirol, Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub.

**2.2** Mae'r Canllawiau Statudol yn caniatáu rhywfaint o ddisgresiwn i'r Cyngor gynnwys meini prawf cymhwyster ychwanegol ac, yr un modd â pharagraff 2.1, byddai'r isod yn atal unrhyw ymgeisydd rhag cael ei ystyried:-

- Bod yn perthyn i (fab/merch, rhiant, brawd/chwaer neu berthynas agos arall) neu fod â chysylltiad agos ag unrhyw un sydd yn, neu wedi bod, yn Gynghorydd neu'n gyflogai o'r Cyngor;
- Bod yn weithgar mewn gwleidyddiaeth leol neu genedlaethol;
- Wedi cael unrhyw drafodion sylweddol blaenorol hefo'r Cyngor a all cyfaddawdu eich didueddrwydd;
- Wedi cael unrhyw gollfarnau troseddol neu rydych yn fethdalwr heb ei ryddhau.

## 3. NIFER YR AELODAU LLEYG

**3.1** Mae Adran 82 y Mesur yn manylu ar y gofynion o ran aelodaeth Pwyllgor Archwilio ac yn nodi bod rhaid i o leiaf un aelod fod yn aelod lleyg. Dyma'r gofyniad sylfaenol ac, fel y gŵyr yr Aelodau, mae'r Pwyllgor ar hyn o bryd yn cynnwys dau aelod lleyg.

**3.2** Fe ystyrir fod cael dau o aelodau lleyg yn ehangu sgiliau a phrofiad aelodau'r Pwyllgor ac argymhellir y dylid parhau i fod â dau aelod lleyg ond gofynnir i'r Pwyllgor ystyried hyn.

## 4. DISGRIFIAD SWYDD A MANYLEB PERSON

**4.1** Er mwyn cynorthwyo'r broses recriwtio, mae disgrifiad swydd a manyleb person ar gyfer rôl aelodau lleyg wedi cael eu drafftio (gweler Atodiad 1). Mae'r fformat yn cyd-fynd â'r fformat corfforaethol ar gyfer unrhyw swydd yn y Cyngor.

**4.2** Gwahoddir Aelodau i gyflwyno sylwadau ar y disgrifiad swydd a'r fanyleb person a gynigir.

## 5. PROSES RECRIWTIO AC AMSERLEN

**5.1** Y cyfarfod hwn fydd yr un olaf o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant cyn etholiadau'r Cyngor Sir ym mis Mai 2017. Bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar 28 Mehefin 2017 a bydd angen penodi'r nifer briodol o aelodau lleyg erbyn y dyddiad hwnnw.

**5.2** Bydd y broses recriwtio, gan gynnwys hysbysebu a'r broses ddethol, yn cymryd oddeutu dau fis i'w chwblhau a chynigir y dylid rhoi hysbyseb yn y papurau newydd lleol ar y cyfle cyntaf yn dilyn y Pwyllgor hwn. Bydd y cyfryngau cymdeithasol a gwefan y Cyngor ei hun hefyd yn cael eu defnyddio i hysbysebu'r rôl.

**5.3** Cynigir mai 12 Mai 2017 fydd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau. Yn dilyn derbyn y ceisiadau, tynnir rhestr fer gan Banel Swyddogion (Prif Weithredwr, Swyddog Adran 151 a'r Rheolwr Archwilio Mewnol a Risg).

**5.4** Byddai cyfweliadau'n cael eu cynnal wedyn tuag at ddechrau/canol mis Mehefin a byddai'r Panel Cyfweld yn cynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant a'r Swyddog Adran 151. Bydd Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor yn cael eu hethol ar 31 Mai 2017.

**5.5** Dylid nodi fod Cyngor Gwynedd wedi cysylltu gyda'r Cyngor yn gofyn a ydyw'n dymuno cynnal proses recriwtio ar y cyd. Gofynnir i'r Aelodau ystyried a ydynt yn dymuno i'r Cyngor fod yn rhan o broses recriwtio ar y cyd.

## 6. ARGYMHELLION

**6.1** Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo'r meini prawf cymhwyster ychwanegol a nodir ym mharagraff 2.2.

**6.2** Gofynnir i'r Aelodau gadarnhau y bydd dau o aelodau lleyg yn parhau i fod yn aelodau o'r Pwyllgor.

**6.3** Gofynnir i Aelodau ddarparu sylwadau ar y disgrifiad swydd a'r fanyleb person ddrafft fel y'u gwelir yn Atodiad 1.

**6.4** Gofynnir i Aelodau gadarnhau'r broses recriwtio a'r amserlen arfaethedig a nodir ym mharagraff 5.

**R MARC JONES**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151** **16 MAWRTH 2017**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHIANT**

**SWYDD-DDISGRIFIAD – AELOD LLEYG**

**PWRPAS CYFFREDINOL Y SWYDD**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i sicrhau a dangos llywodraethu da. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn ffurfio rhan allweddol o lywodraethu'r Cyngor, ac fe seilir ei weithrediad ar Ganllawiau Ymarferol y Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus i Awdurdodau Lleol a'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Rôl Aelodau Lleyg y Pwyllgor yw i gynorthwyo'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant i gyflawni'n effeithiol ei rôl drwy ddarparu barn, cyngor a sgriwtini annibynnol ar faterion yn ymwneud â threfniadau'r Cyngor ar archwilio, rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth.

I ymgymryd â'r rôl yma, rhaid i'r aelod lleyg fod yn ymrwymedig i werthoedd y Cyngor a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus :-

- Anhunanoldeb
- Gonestrwydd
- Uniondeb a Phriodoldeb
- Dyletswydd i gynnal y gyfraith
- Stiwardiaeth
- Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
- Ansawdd a Pharch
- Bod yn agored
- Atebolrwydd
- Arweinyddiaeth

**PRIF ATEBOLRWYDD / TASGAU ALLWEDDOL**

**1.** Mynychu a mynd ati i gymryd rhan yng nghyfarfodydd Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant y Cyngor.

**2.** Darparu barn annibynnol a heriol i'r materion yr ystyrir gan y Pwyllgor, gan roi ystyriaeth briodol i'r cyngor proffesiynol a roddwyd i Aelodau'r Pwyllgor.

**3.** I hyrwyddo a chefnogi llywodraethiant a rheoli risg da gan y Cyngor.

**MANYLDEB PERSON**

**1. Addysg a Hyfforddiant**

**1.1 Hanfodol**

**1.1.1** Dim

**1.2 Dymunol**

**1.2.1** Cymwyster proffesiynol yng nghyfrifeg, rheoli busnes, archwilio neu rheoli risg.

**1.2.2** Gradd perthnasol.

**2. Gwybodaeth a Phrofiad**

**2.1 Hanfodol**

**2.1.1** Profiad o weithio mewn, neu hefo, sefydliadau mawr a chymhleth.

**2.1.2** Cefndir ariannol, archwilio, cyfreithiol neu rheoli.

**2.2 Dymunol**

**2.2.1** Profiad o weithio mewn, neu hefo, sefydliadau sector gyhoeddus, llywodraeth leol yn ddelfrydol.

**2.2.2** Profiad o fod yn aelod o Bwyllgor Archwilio mewn sefydliad tebyg.

**2.2.3** Dealltwriaeth dda o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.

**2.2.4** Gwybodaeth am Ynys Môn a'r cyfleoedd a'r risgiau mae'n ei wynebu.

**2.2.5** Gwybodaeth am bwrpas a rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodaethiant.

**3. Sgiliau a Galluoedd**

**3.1 Hanfodol**

**3.1.1** Y gallu i ddadansoddi gwybodaeth cymhleth, cwestiynu, i dreiddio ac i geisio eglurhad er mwyn dod i farn annibynnol a di-duedd.

**3.1.2** Lefel uchel o sgiliau rhyngbersonol a'r gallu i weithio'n effeithiol gydag Aelodau Etholedig a Swyddogion y Cyngor mewn amgylchedd Pwyllgor ffurfiol.

**3.1.3** Y gallu i herio Swyddogion y Cyngor ac Archwilwyr.

**3.1.4** Y gallu i wrando ac i ystyried a pharchu barn cyfranogwyr arall.

**3.2 Dymunol**

**3.2.1** Y gallu i gyfathrebu'n ddwy ieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**MEINI PRAWF CYMHWYSO**

Er mwyn bod yn gymwys i ymgymryd â'r rôl, ni ddylech fod :-

- Yn Gynghorydd ar hyn o bryd ar Gyngor Sir Ynys Môn;
- Yn gweithio ar hyn o bryd i Gyngor Sir Ynys Môn;
- Yn briod â neu'n bartner sifil i Gynghorydd sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd ar Gyngor Sir Ynys Môn;
- Yn briod â neu'n bartner sifil i berson sy'n gweithio ar hyn o bryd i Gyngor Sir Ynys Môn;
- Yn Gynghorydd ar hyn o bryd ar unrhyw Gyngor Sir, Cyngor Sir Bwrdeistrefol, Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub;
- Yn gweithio ar hyn o bryd i unrhyw Gyngor Sir, Cyngor Sir Bwrdeistrefol, Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub;
- Yn briod â neu'n bartner sifil i Gynghorydd sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd ar unrhyw Gyngor Sir, Cyngor Sir Bwrdeistrefol, Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Audirdod Tân ac Achub;
- Yn briod â neu'n bartner sifil i berson sy'n gweithio ar hyn o bryd i unrhyw Gyngor Sir, Cyngor Sir Bwrdeistrefol, Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub;
- Yn Gynghorydd Tref / Cymuned ar hyn o bryd
- Yn gweithio ar hyn o bryd i Gyngor Tref / Cymuned
- Yn briod â neu'n bartner sifil i Gynghorydd sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd ar unrhyw Gyngor Tref / Cymuned
- Yn briod â neu'n bartner sifil i berson sy'n gweithio ar hyn o bryd i unrhyw Gyngor Tref / Cymuned;
- Ag unrhyw gyswllt busnes gyda Chyngor Sir Ynys Môn;
- Wedi bod, ar unrhyw adeg, yn Gynghorydd ar Gyngor Sir Ynys Môn
- Wedi bod, yn ystod y 12 mis diwethaf, yn Gynghorydd ar unrhyw Gyngor Sir (ac eithrio Cyngor Sir Ynys Môn), Cyngor Bwrdeistref Sirol, Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub;
- Wedi bod, ar unrhyw adeg, yn gyflogedig gan Gyngor Sir Ynys Môn;
- Wedi bod, yn ystod y 12 mis diwethaf, yn gyflogedig gan unrhyw Gyngor Sir (ac eithrio Cyngor Sir Ynys Môn), Cyngor Bwrdeistref Sirol, Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub;

Gall y meini prawf dilynol hefyd eich atal rhag bod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant :-

- Bod yn perthyn i (fab/merch, rhiant, brawd / chwaer neu berthyn agos arall) neu fod â chysylltiad agos ag unrhyw un sydd yn, neu wedi bod, yn Gynghorydd neu'n gyflogai o'r Cyngor;
- Bod yn weithgar mewn gwleidyddiaeth leol neu genedlaethol;
- Wedi cael unrhyw drafodion sylweddol blaenorol hefo'r Cyngor a fyddai'n cyfaddawdu eich didueddrwydd;
- Wedi cael unrhyw gollfarnau troseddol neu rydych yn fethdalwr heb ei ryddhau.

**TÂL**

Telir ffi i aelod lleyg y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant a osodir gan Banel Taliadau Annibynnol ar gyfer Cymru. Y ffi bresennol ar gyfer 2016/17 yw fel a ganlyn :-

£99 - am bresenoldeb mewn cyfarfod hyd at 4 awr
£198 - am bresenoldeb mewn cyfarfod dros 4 awr

Yn ogystal, telir lwfans teithio am fynychu cyfarfodydd - £0.45 y filltir (hyd at 10,000 milltir mewn unrhyw flwyddyn ariannol), £0.25 y filltir wedi hyn.